# Crwydro yn yr Anialwch



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Ar ôl i Dduw ddewis cosbi Ei bobl trwy ddim caniatáu iddynt fynd i mewn i Wlad yr Addewid, bu'r Iddewon yn crwydro yn yr anialwch am bedwardeg mlynedd. Wythnos yma byddwn yn ffocysu ar yr amser roeddynt yn crwydro yn yr anialwch.

Video playlist

Rhai o'r prif bwyntiau yw:-

- Mae canlyniadau am y dewisiadau rydym yn gwneud.
- Mae Duw yn maddau pawb sy'n gofyn Iddo.
- Dylwn fod yn ddiolchgar am y pethau mae Duw yn rhoi i ni.

## Canllaw'r wers

Atgoffwch y plentyn am yr ysbiwyr yn gwrthod addewid Duw byddai yn rhoi Gwlad yr Addewid iddynt, a'r gosb rhoddodd Duw iddynt am byth mynd i mewn i Wlad yr Addewid. Gallwch edrych fyny rhai lluniau o'r wlad lle crwydrodd plant Israel. Gofynwch i'r plentyn os yw'n edrych yn le dymunol i fyw.

Trafodwch fod gweithrediadau yn cael canlyniadau. I ddangos hyn, gallwch ddefnyddio tiwb o bast dannedd. Chwistrellwch ychydig bach ar ddarn o bapur cwyr. Gofynnwch i'r plentyn rhoi'r past dannedd yn ôl yn y tiwb. Cynigiwch lwy, pren pigo dannedd a. y. y. b. Ar ôl i'r plentyn sylweddoli ei fod yn amhosib rhoi'r past dannedd yn ôl, atgoffwch y plentyn bod pob dewis mae'n gwneud yn cael canlyniad, sydd ddim bob amser yn bosib ei ddatod. Os oes gwell gennych ddim defnyddio past dannedd , gallwch ddefnyddio darn o bapur. Dywedwch wrth y plentyn i wasgu'r papur i mewn i bêl ac wedyn gofynnwch iddynt ei wneud yn llyfn fel o'r blaen. Pan mae'r plentyn yn sylweddoli nad yw'n bosib gwneud y papur yn llyfn eto, atgoffwch e fod gweithrediadau yn cael canlyniadau. Nodyn: gallwch ddefnyddio naill ai'r un neu'r ddwy esiampl flaenorol gyda'r plentyn.

Atgoffwch y plentyn, er bod Duw yn anhapus bod ei bobl yn anffyddlon Iddo, roedd dal yn edrych ar ôl plant Israel yn yr anialwch. Pwyntiwch allan bod dillad ac esgidiau yn gwisgo allan, ond bod Duw yn cadw dillad yr Iddewon rhag mynd yn hen. Pwyntiwch allan rhai o'r ffyrdd mae Duw yn edrych ar ôl ni, er enghraifft – yr haul, glaw, bwyd, dŵr a.y.y.b.

Siaradwch am mor aml roedd yr Iddewon yn cwyno. Gofynnwch i'r plentyn os ydynt erioed wedi cwyno am rywbeth. Siaradwch am rhai o'r ffyrdd gallent ffocysu ar ddiolchgarwch, e.e. os ydynt yn cwyno'n aml am liw ei esgidiau, meddyliwch am y ffordd mae'r esgidiau yn diogelu ei draed, eu cadw'n gynnes a.y.y.b. Cadwch hyn yn hwyl trwy greu rhesymau gwirion iawn i fod yn ddiolchgar, fel hyd yn oed os nad yw brocoli yn un o'i hoff lysiau i fwyta, gall fod yn ddiolchgar nad yw'n troi ei groen yn wyrdd. Efallai hoffech greu blodyn syml i'w wal gyda rhesymau am fod yn ddiolchgar wedi ysgrifennu ar y petalau. Gallwch chwarae gêm fel bod pob tro mae rhywun yn y teulu yn dechrau cwyno, gall pawb arall alw allan "Agwedd Diolchgarwch" ac mae'n rhaid i'r cwynwr ddod fyny a rheswm i fod yn ddiolchgar.


Gweddïwch gyda'ch plentyn a gofynnwch i'r Iesu ddatblygu diolchgarwch yn eich calonnau.

© 2023 truewaykids.com



Parhaodd y bobl i gwyno.
Roedd Duw yn drist. Roedd bob amser yn gofalu amdanynt, ond doeddynt byth yn ddiolchgar.
Gadawodd Duw nadroedd gwenwynig i mewn i'r gwersyll.
Dywedodd y bobl bod yn flin ganddynt.
Dywedodd Duw wrth Moses am roi neidr bres ar bolyn.
Os byddai'r bobl yn edrych arno ac yn cael ffydd, byddent yn cael eu hachub.






Gwrthododd bobl Israel ymddiried yn Nuw a mynd i mewn i Wlad yr Addewid.

Cwynon nhw wrth Moses.

Roedd y bobl eisiau dychwelyd i'r Aifft.

Roedd yn well ganddynt fod yn gaethweision nag i ufuddhau Duw.

Gorfododd Duw iddynt grwydro yn yr anialwch am bedwar deg mlynedd.



Am bedwar deg mlynedd bu'r Iddewon yn crwydro yn yr anialwch.

Parhaodd Duw i'w gwarchod.

Rhoddodd manna iddynt i fwyta a dŵr i yfed.

Gwnaeth yn siŵr bod eu dillad ddim yn gwisgo allan.

Bu'n eu harwain a'u hamddiffyn bob dydd.





Gofalodd Duw amdanynt, ond parhaodd y bobl i gwyno.
Un diwrnod cwynon nhw wrth Moses am eu bod yn sychedig.
Dywedodd Duw wrth Moses i siarad â chraig.
Ond roedd Moses mor grac fe darodd y graig gyda'r ffon.
Doedd Duw ddim yn hapus gyda Moses. Dywedodd na fyddai Moses yn mynd i mewn i Wlad yr Addewid.

# Chwaraeon a Gweithgareddau

## Cerddwch y ffordd hir

Ewch am dro rhywle mae'r plentyn yn hoffi mynd ac efallai mai hyd yn oed yn gwybod y ffordd.

Tro yma, sut bynnag, ewch y ffordd hir o gwmpas i'r lle.

Eglurwch sut oedd rhaid i'r Iddewon gerdded y ffordd hir o gwmpas am 40 mlynedd.





## Cardiau diolch

Mae'n bwysig ein bod yn dweud diolch i Dduw ac i eraill.

Crëwch gardiau diolch i bobl rydych yn adnabod.

(Athro, Nain/Taid, gweinidog, ffrind a.y.y.b.)

## Soflieir a manna

Rhowch ddarnau papur lliw neu luniau ar y llawr. Dylai un bod yn fanna a'r llall yn soflieir.

Pan rydych yn galw "soflieir" neu "manna", rhaid i'r plentyn redeg a chodi'r un cywir mor gyflym â phosib. Os rydych yn chwarae gyda mwy o blant gall e fod yn ras.



© 2023 truewaykids.com

# Ffeindiwch 5 peth gwahanol






© 2023 truewaykids.com

# Dwi'n ddiolchgar am

Tynnwch lun 4 peth i ddiolch i Dduw am eu rhoi i chi.


© 2023 truewaykids.com

# Amlinellwch y cylchoedd



© 2023 truewaykids.com

# Helpwch y ferch gasglu'r manna



Sawl darn o fanna
wnaethoch
ffeindio?

© 2023 truewaykids.com

# Heddiw bwytais...

Brecwast

Cinio canol dydd

Cinio nos

© 2023 truewaykids.com

# Olwyn stori'r anialwch

Mae crefft wythnos yma yn cynnwys llawer o'r digwyddiadau yn ystod y 40 mlynedd yn yr anialwch.

1) Bobl yn cwyno

2) Manna

3) Colofn o niwl

4) Dŵr o'r graig

5) Neidr bres

6) Dillad nad oedd yn gwisgo allan.

Y syniad yw, fel mae'r olwyn yn troi rownd, mae'n atgoffa ni bod yn rhaid i'r bobl gerdded o gwmpas hefyd am 40 mlynedd.



## Pethau byddwch angen:

- Templed
- Cerdyn gwyn
- Siswrn
- Pensiliau lliw
- Pin ffasnydd
- Tâp

## Beth i'w wneud:



Lliwiwch y lluniau



Torrwch allan y cylchoedd.



Gwnewch dwll bach yn y canol a'i osod gyda'r pin ffasnydd.


© 2023 truewaykids.com




© 2023 truewaykids.com




© 2023 truewaykids.com





© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com









© 2023 truewaykids.com

# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids.  Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## O Taste and See

https://youtu.be/FJdFKYZRxcM

## When I Look

https://youtu.be/4iW9MN7vMpQ

## Everybody Get Walkin'

https://youtu.be/KcBw06THpn0



# Amser Gweddi

Diolchwch i Dduw am bopeth mae E'n rhoi i ni.

Gofynnwch i Dduw eich helpu i beidio cwyno ac i ddweud 'mae'n ddrwg gen i'.

# Wythnos Nesaf:

## Josua

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2023 truewaykids.com